**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus

**National Assembly for Wales**
Public Accounts Committee

Andrew Slade
Cyfarwyddwr Cyffredinol – Grŵp Economi, Sgiliau ac Adnoddau Naturiol
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Cardiff
CF10 3NQ

25 Ebrill 2018

Annwyl Mr Slade,

**Heriau digidoleiddio**

Diolch ichi am eich ymateb i'r llythyr a anfonais ar 8 Mawrth, a gafodd ei ystyried gan y Pwyllgor ar 16 Ebrill.

Mae'r Pwyllgor yn nodi'r manylyn yn eich ymateb ynglŷn â sut y mae Llywodraeth Cymru yn defnyddio fframweithiau Digidol, Data a Thechnoleg (DDat) Gwasanaeth Digidol y Llywodraeth (GDS). Fodd bynnag, hoffem gael mwy o fanylion ynghylch pam nad yw gwasanaethau cyhoeddus eraill yng Nghymru yn mabwysiadu'r ymagwedd fwy hyblyg a ddefnyddir gan y GIG yn Lloegr, yn enwedig, neu'r sector digidol yn Llywodraeth y DU. Rydym yn pryderu bod llawer o wasanaethau cyhoeddus yng Nghymru yn parhau i ddefnyddio contractau caffael traddodiadol mawr, gyda chyfnod oedi hir cyn cyflwyno'r contractau, ac o ystyried bod Llywodraeth Cymru wedi ymbellhau o'r dull hwn, byddem wedi disgwyl i weddill y sector cyhoeddus yng Nghymru ddilyn y confensiwn hwnnw.

Gwelodd y Pwyllgor fod eich ymateb yn canolbwyntio ar weithgarwch Llywodraeth Cymru yn unig. Byddem yn croesawu manylion pellach ynghylch sut y mae Llywodraeth Cymru yn defnyddio'r fframwaith Digital Outcomes and Specialists ac, yn enwedig, y dadansoddiad o'r gwariant G-Cloud. Hoffem gael gwybodaeth am sut y mae'r rhain yn gymwys i sector cyhoeddus Cymru yn fwy cyffredinol, yn hytrach na Llywodraeth Cymru yn unig.

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
SeneddArchwilio@cynulliad.cymru
www.cynulliad.cymru/SeneddArchwilio
0300 200 6565

**National Assembly for Wales**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA
SeneddPAC@assembly.wales
www.assembly.wales/SeneddPAC
0300 200 6565

Mae'r fframwaith Digital Outcomes and Specialists yn galluogi i wasanaeth cyhoeddus Cymru weithio'n fwy deinamig, drwy ddefnyddio arbenigwyr er enghraifft. Gofynnwn ichi roi mwy o eglurder ynghylch sut y gellid rhoi hyn ar waith ar draws y sector cyhoeddus yng Nghymru.

Rydych wedi eich amserlennu i ddod i gyfarfod y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus ar 4 Mehefin i drafod Adolygiad Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a Thrafnidiaeth o'r Cyswllt Awyr o fewn Cymru. Yn dibynnu ar eich ymateb i'r llythyr hwn, efallai y byddwn yn gofyn ichi roi tystiolaeth lafar ar y mater hwn yn y cyfarfod.

Yn gywir,

**Nick Ramsay AC**
**Cadeirydd**